**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymchwiliad:** Llwybrau prentisiaeth
**Cyf:** AP02
**Ymateb gan:** Medr

-

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Inquiry:** Apprenticeship pathways
**Ref:** AP02
**Evidence from:** Medr

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Llwybrau Prentisiaeth – ymchwiliad gan Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Ymateb i'r ymgynghoriad | Chwefror 2025

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

1. Mae Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn gorff hyd braich i Lywodraeth Cymru. Fe'i sefydlwyd drwy Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw cydweithio'n agos â'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas, a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad yn greiddiol iddi.
2. Mae disgwyl i Medr gyhoeddi ei Gynllun Strategol yn gynnar yn 2025, yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Datblygwyd y Cynllun Strategol mewn ymgynghoriad â'n partneriaid ledled Cymru. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ein hymateb i'r ddogfen datganiad o flaenoriaethau strate gol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu ein nodau a'n hymrwymiadau strategol ac yn disgrifio'r ffordd rydym am weithio i'w cyflawni, gan integreiddio hynny â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
3. Cyn rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, rhoddwyd cyflwyniad tystiolaeth a oedd yn egluro rôl Medr o ran darparu prentisiaethau yng Nghymru. Yn yr ymateb hwn, rydym yn manylu mwy ar y modd rydym yn bwrw ymlaen â'r rôl hon.

**Llwybrau rhwng lefelau prentisiaeth**

4. Un o nodau strategol Medr yw "creu system drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid". Mae creu Medr yn gyfle i wella cysylltiadau rhwng darpariaeth alwedigaethol ac addysg uwch ac annog cydweithio rhwng darparwyr, i gynnig yr ateb gorau i'r dysgwr. Mae llwybrau clir rhwng cyfleoedd dysgu yn ganolog i hyn, gan gydnabod efallai na fydd y llwybr bob amser yn llinol ac y gall dysgwyr symud rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth ôl-16. Dim ond un elfen o'r system sgiliau ehangach yw prentisiaethau a gallai opsiynau eraill fod yn fwy addas i ddiwallu anghenion y busnes neu'r dysgwr.
5. Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun i adolygu pob un o'r 23 o fframweithiau prentisiaeth dros y tair blynedd nesaf. Diben yr adolygiad yw gwneud yn siŵr bod fframweithiau'n gyfredol, eu bod yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, a'u bod yn cynnwys ymdriniaeth gadarn â'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i unigolyn fod yn gymwys yn ei broffesiwn. Bydd yr adolygiadau'n sicrhau bod y fframweithiau'n ymateb i'r anghenion o ran sgiliau sy'n newid yn gyflym, gyda sgiliau gwyrdd a digidol yn themâu allweddol ym mhob adolygiad. Bydd pob adolygiad yn edrych yn ofalus ar ddilyniant rhwng lefelau prentisiaeth, gyda'r nod o alluogi dysgwyr i symud ymlaen yn fwy effeithiol ac yn ddi-dor heb ailadrodd yr hyn a ddysgwyd.
6. Rydym yn cydnabod bod heriau i ddilyniant mewn rhai sectorau, er enghraifft lle nad yw cyflogwyr yn gallu darparu'r profiadau sydd eu hangen ar ddysgwyr i fodloni gofynion prentisiaethau ar lefelau uwch. Byddwn yn archwilio'r her hon wrth ddylunio'r rhaglen newydd a fydd ar waith o 2027, i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau diangen i ddilyniant ac i nodi a oes ffyrdd eraill y gellid cefnogi prentisiaid i ennill y sgiliau angenrheidiol. Er mwyn sicrhau gwerth o arian cyhoeddus, mae prentisiaethau gradd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd mewn sectorau sydd â photensial am swyddi gwerth uchel a thwf economaidd cryf. Bydd ein hadolygiadau fframwaith yn gyfle i ystyried ac amlygu llwybrau eraill i sgiliau lefel uwch.

7. Math o ddarpariaeth alwedigaethol i bobl ifanc 14-16 oed yw prentisiaethau iau. Fe'u darperir mewn coleg addysg bellach (pump ar hyn o bryd, mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol). Nid prentisiaeth mohonynt, gan nad yw'r rhaglen yn gysylltiedig ag unrhyw fframwaith prentisiaeth. Eu nod yw cadw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o'r cwricwlwm prif ffrwd trwy gynnig ffordd wahanol o ddysgu. Amlygodd adolygiad Estyn o Brentisiaethau Iau ym mis Mai 2024 lwyddiant y rhaglen o ran cadw dysgwyr, gyda'r mwyafrif yn mynd i ddarpariaeth addysg bellach ôl-16 prif ffrwd.

**Yr Economi**

8. Mae'r rhaglen brentisiaeth yn ceisio bodloni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru: targed y Rhaglen Lywodraethu o 100,000 o ddechreuadau, elfen o'r Warant i Bobl Ifanc, ffordd o ddarparu'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen ar gyfer twf, gan gefnogi'r economi sylfaenol ar yr un pryd, a'r brif ffurf ar hyfforddiant i fodloni anghenion diwydiannau penodol. Mae ein darparwyr yn gweld galw parhaus, sy'n awgrymu bod prentisiaethau'n cyfrannu at lenwi bylchau sgiliau. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod heriau'n gysylltiedig â'r system gyfredol, ar gyfer rhai sectorau economaidd yn fwy nag eraill, ac yn nhermau'r gallu i ymateb i anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg.
9. Mae ein trefniadau contractio cyfredol yn cyfyngu ar y newidiadau y gallwn eu gwneud yn y tymor byr, ond rydym hefyd yn dechrau gwaith i ddatblygu'r rhaglen newydd a gyflwynir o 2027. Bydd y rhaglen newydd yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â darparwyr, cyflogwyr, dysgwyr a Llywodraeth Cymru, ar sail tystiolaeth. Gobeithiwn y bydd y rhaglen newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd, gan ein galluogi i ymateb i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid, drwy reoli cydbwysedd y ddarpariaeth rhwng sectorau yn well ac annog cydweithio i osgoi dyblygu.
10. Bydd y rhaglen newydd yn cael ei datblygu yng nghyd-destun gwaith ehangach Medr, gan edrych ar gydlyniant y cynnig trydyddol ledled Cymru. Mae angen inni feddwl am hyblygrwydd o ran sut y caiff anghenion o ran sgiliau eu bodloni drwy system addysg drydyddol gydgysylltiedig, nid o reidrwydd drwy brentisiaethau'n unig. Bydd rhai anghenion yn cael eu bodloni'n well drwy hyfforddiant byr a manwl, fel yr hyn sydd ar gael drwy Gyfrifon Dysgu Personol, neu drwy ailbwrpasu darpariaeth sy'n bodoli eisoes yn hytrach na datblygu fframwaith newydd, lle bydd angen amser i sicrhau cadernid y fframwaith.
11. Gwyddom y bu problemau yn y gorffennol gyda fframweithiau nad ydynt yn gyfredol, er enghraifft fframweithiau sy'n cynnwys cymwysterau nad ydynt ar gael mwyach, neu nad ydynt yn bodloni safonau newidiol y diwydiant. Rydym wedi rhoi proses strwythuredig ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn gyda'n rhaglen o adolygiadau fframwaith. Bydd pob adolygiad yn cael ei lywio gan grŵp llywio sy'n cynnwys arbenigwyr o'r sector, arbenigwyr technegol, cyrff diwydiant a phartneriaid allweddol, fel Cymwysterau Cymru, ac ymgynghori ehangach.

**Cyflogwyr**

12. Mae gweithio gyda chyflogwyr a gwrando arnynt yn ystyriaeth bwysig i Medr er mwyn llywio ein gwaith. Daethom â fforwm cyflogwyr ynghyd yn rhan o'n proses i ymgynghori ar ein cynllun strategol. Rydym yn ystyried sut orau i ymgysylltu â chyflogwyr yn barhaus, boed hynny drwy sefydlu ein strwythurau ffurfiol ein hunain neu drwy ddefnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes fel y Byrddau Partneriaeth Sgiliau

Rhanbarthol a grwpiau clwstwr. Rydym hefyd yn awyddus i beidio â dyblygu'r berthynas gref sydd gan ddarparwyr addysg drydyddol eisoes â chyflogwyr ledled Cymru, o gwmnïau rhyngwladol i fentrau cymdeithasol lleol a'r sector cyhoeddus.

13. Mae Medr yn meithrin perthnasoedd â Busnes Cymru i ddeall anghenion a cheisiadau cyflogwyr. Byddwn hefyd yn comisiynu ymchwil i ystyried sut y gallwn ehangu ystod y cyflogwyr sy'n ymwneud â darparu prentisiaethau, ac yn defnyddio hyn yn sail i ddylunio'r rhaglen newydd. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar Wythnos Prentisiaethau, sy'n anelu i godi proffil prentisiaethau.

14. Rydym cydnabod bod busnesau llai yn wynebu heriau wrth ymwneud â phrentisiaethau. Rydym yn gweithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach i archwilio sut y gallem godi ymwybyddiaeth ynghylch prentisiaethau ymhlith y rhan hon o'r gymuned fusnes, a hefyd i ddeall mwy am y rhwystrau o flaen cyflogwyr o'r fath. Gall cyflogwyr gael mynediad at brentisiaethau a rennir os na allant gyflogi prentis yn llawnamser, neu gynnig pob agwedd sydd wedi'i chynnwys mewn fframwaith. Bydd prentisiaethau a rennir yn galluogi unigolion i weithio ar draws amryw o gyflogwyr, ac mae hyn yn arbennig o fuddiol i fentrau micro, bach a chanolig. Mae prentisiaethau a rennir ar gael ym mhob sector ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, gyda chynlluniau'n cael eu cynnal ym maes adeiladu, peirianneg, cyfryngau creadigol a digidol, theatr dechnegol a chwaraeon cymunedol. Rydym yn archwilio a oes modd ehangu'r cynllun i gynnwys sgiliau gwyrdd.

### Gwybodaeth am brentisiaethau

15. Roedd pwysigrwydd cyngor gyrfaoedd annibynnol, diduedd o ansawdd uchel i ddysgwyr a chydweithio â chyflogwyr i gael gwybodaeth am opsiynau galwedigaethol yn themâu allweddol gan ymatebwyr yn ystod ymgynghoriad Medr ar ei Gynllun Strategol. Mae'n hollbwysig bod gan y rhai sy'n cynghori dysgwyr ddealltwriaeth eang o feysydd diwydiant presennol ac esblygol, ac o'r holl lwybrau addysg a all helpu dysgwr i gael mynediad i yrfa neu ddiwydiant o'i ddewis. Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth, er bod pen ar ei weithgarwch oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, a bydd hi'n bwysig gwneud y gorau o gyfleoedd y golofn gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yng Nghwricwlwm Cymru.

16. Rydym yn gweld bod cynnwys profiad gwaith mewn rhaglenni dysgu ôl-16 addysg bellach yn rhoi cipolwg hynod fuddiol i ddysgwyr o'r diwydiant go iawn. Ar hyn o bryd mae Medr yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi hyn mewn colegau, mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad *Pontio i Fyd Gwaith.* Fodd bynnag, gan gydnabod daearyddiaeth Cymru a'r gyfran fawr o fusnesau micro, bach a chanolig, nid ydym wedi gwneud hyn yn orfodol i bob dysgwr, gan ein bod yn cydnabod y byddai'n heriol i ddarparwyr trydyddol a chyflogwyr ddarparu adnoddau ar gyfer hynny.

### Ecwiti o ran cefnogaeth a mynediad

17. Thema allweddol yng nghynllun strategol Medr yw deall a cheisio mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ar draws pob math o addysg drydyddol, nid prentisiaethau yn unig.

18. Rydym yn comisiynu ymchwil i goladu arfer da ledled Cymru, y DU a'r byd ym maes gwella amrywiaeth o fewn prentisiaethau, a bydd hyn yn sail ar gyfer dylunio'r rhaglen newydd, gan gydnabod bod angen gwneud mwy yn hynny o beth.

19. Ar hyn o bryd, mae Medr yn darparu Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr i gefnogi trefniadau i recriwtio pobl anabl i brentisiaethau. Drwy'r cynllun darperir £2000 fesul prentis ar gyfer cymorth personol neu dechnegol. Mae 489 prentisiaid wedi cael cefnogaeth ers dechrau'r cynllun yn 2021. Ceir cryn alw am brentisiaethau â chymorth, sy'n rhoi cymorth dwys i'r rhai sy'n lleiaf tebygol o allu cael mynediad i'r gweithlu, ac rydym yn bwriadu cynyddu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ddarpariaeth hon, er mwyn lleihau rhestrau aros. Rydym wedi gweld cynnydd bach yn nifer y prentisiaid anabl: yn y chwarter olaf y mae gennym ddata ar ei gyfer (Chwefror - Ebrill 2024), roedd 12% yn anabl, o gymharu ag 11% yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol, ac mae'r ffigur wedi bod yn codi'n raddol dros oes y rhaglen gyfredol.

20. Mae cyflogwyr yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi eu prentisiaid, drwy roi amser iddynt gwblhau'r dysgu angenrheidiol i ffwrdd o'r gwaith, a rhoi cymorth priodol a chyfleoedd i ddatblygu o fewn y gweithle.

**Rôl Llywodraeth Cymru**

21. Mae creu Medr wedi golygu adnewyddu ac ailsefydlu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff cyllido a rheoleiddio newydd, ac rydym yn cydweithio â'r Llywodraeth i sicrhau bod cyfrifoldebau'r naill a'r llall yn eglur. Rôl Llywodraeth Cymru yw pennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer sgiliau a chyfarwyddyd polisi ar gyfer prentisiaethau. Mae Medr yn gyfrifol am reoli a goruchwylio'r contract prentisiaethau, gan sicrhau ei fod yn ymateb i'r cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru yn teithio iddo. Medr sydd â'r berthynas uniongyrchol â'r deg prif gontractwr, tra bydd Estyn yn parhau i arolygu ansawdd y ddarpariaeth prentisiaethau.

22. Yn ogystal â'r berthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Medr fel corff hyd braich, byddwn yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion sy'n gyfrifol am bolisi sgiliau a phrentisiaethau. Rydym yn cydweithio â nhw i ddeall goblygiadau polisïau a datblygiadau eraill, gan gynnwys creu Skills England a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, o ran y rhaglen brentisiaethau a'r system addysg drydyddol ehangach.

23. Mae amcanion datganiad polisi prentisiaethau Llywodraeth Cymru yn llywio'r ymagweddau a fabwysiedir gennym yn ein rhaglen waith. Bydd rhoi rhaglen fwy strwythuredig o adolygiadau fframwaith ar waith, gan ymwreiddio ystyriaeth yn hynny o sgiliau digidol a gwyrdd, yn fodd i sicrhau bod prentisiaethau yn cyfrannu at economi gynaliadwy, ac yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau. Rydym yn gweithio gyda darparwyr i wella amrywiaeth y rhai sy'n manteisio ar brentisiaethau, ac yn ystyried ymhle y gallwn ddefnyddio creu Medr fel cyfle i fabwysiadu ymagwedd fwy trydyddol at heriau polisi, fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a chynyddu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

24. Rôl Medr yw ymateb i flaenoriaethau o ran sgiliau fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru, a gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddehongli gwybodaeth y farchnad lafur a data ar dueddiadau galwedigaethol. Mae gennym wedyn rôl oruchwylio i weithio gyda darparwyr addysg drydyddol gyda'i gilydd i sicrhau bod darpariaeth a chynlluniau'r cwricwlwm yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, ac i gefnogi darpariaeth arloesol er mwyn ymateb i newidiadau o fewn yr economi. Mae'r data o natur cymharol fyrdymor ar hyn o bryd, a byddai edrych ymhellach i'r dyfodol o gymorth i lywio darpariaeth tuag at anghenion y dyfodol. Mae creu Medr, a chanddo gyfrifoldeb dros addysg drydyddol ac ymchwil, hefyd yn gyfle i greu cysylltiadau rhwng anghenion busnesau arloesol (sy'n rhoi'r wybodaeth a gynhyrchir gan ein prifysgolion ar waith) a'r system sgiliau sy'n eu gwasanaethu.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government